Dathlu Cymru Wledig
Celebrating Rural Wales
Rhwydwaith Gwledig Cymru
Wales Rural Network



# Fferm Gellifeddgaer

Coetir a Choedwigaeth

## AMAETHYDDIAETH YN ARWAIN Y FFORDD O RAN CYNALIADWYEDD

Mae Gill a Charles Morgan a'u mab Richard, sy'n deulu ffermio 9fed cenhedlaeth, yn rhedeg Fferm Gellifeddgaer ar gyrion Melin Ifan Ddu, Pen-y-bont ar Ogwr ym Morgannwg Ganol.

Er bod y fferm 330 erw wedi'i lleoli drws nesaf i Gomin 1,000 erw Mynydd-y-Gaer, mae ganddi hefyd hawliau comin ar ran uchaf ac isaf Comin 2,000 erw Coety Wallia.

Gydag ardal fawr i'w rheoli a'i ffermio, am y tri degawd diwethaf, mae Gellifeddgaer wedi ymrwymo i warchod a gofalu am yr amgylchedd. Mae'r fferm wedi cymryd rhan mewn cynlluniau amgylcheddol ar hyd y blynyddoedd gan gynnwys y Cynllun Cynefin, Tir Gofal, Glastir Sylfaenol ac mae bellach yn rhan o Glastir Uwch.



## MANTEISION Y CYLLID

Ymunodd Fferm Gellifeddgaer â chynllun Glastir Uwch yn 2015, sef ymrwymiad pum mlynedd i reoli tir yn gynaliadwy ar gyfer y fferm gyfan, a luniwyd i gyflawni nodau amgylcheddol allweddol.

Mae Glastir, sef cynllun rheoli tir cynaliadwy Llywodraeth Cymru, yn cynnig cymorth ariannol i ffermwyr a thirddeiliaid i ddarparu nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol penodol sydd â'r nod o frwydro yn erbyn newid hinsawdd; gwella rheolaeth dŵr a chynnal a gwella bioamrywiaeth. Mae Glastir Uwch yn un o sawl edefyn o'r cynllun ac mae'n ymrwymiad fferm gyfan pum mlynedd.

Ers ymuno â'r cynllun, mae'r teulu Morgan wedi ymgymryd ag ardaloedd o goetir llydanddail, ymyl dŵr ac ardaloedd eang o laswelltir cyfoethog. Mae waliau sychion wedi'u hailadeiladu a ffensys wedi'u codi i amgáu coetir. Mae ardaloedd o goedlannu o fewn y coetir i annog aildyfiant hefyd wedi'i wneud ac mae'r fferm bellach yn gweld manteision y gwaith hwn.



## MAE'R DYFODOL YN DDISGLAIR...

"Rydym ni wastad yn chwilio am ffyrdd o wella ein hôl troed carbon yng Ngellifeddgaer. Fel teulu ffermio, rydym ni'n ymdrechu i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud ein gorau glas i gynnal cefn gwlad a'n hadnoddau naturiol.

"Gan ein bod wedi cymryd rhan mewn cynlluniau amgylcheddol blaenorol ac wedi hynny, y cynllun Glastir, mae wedi gwneud y dasg yn llawer haws i ni helpu i liniaru ac addasu i newid hinsawdd.

"Yn aml iawn, mae amaethyddiaeth yn cael ei beirniadu am yr effeithiau andwyol mae'n eu cael ar yr amgylchedd, ond mae diwydiannau eraill yn gyfrifol hefyd. Yr hyn y gallwn ei werthfawrogi yw bod cymaint y gallwn ei wneud o fewn ein diwydiant dros yr amgylchedd. Drwy ddefnyddio arferion rheoli tir a dŵr newydd, gallwn wneud gwahaniaeth enfawr i storio carbon a gwarchod bioamrywiaeth.

"O gymharu â gwledydd eraill sydd â safonau amgylcheddol llawer is mewn ffermio, mae ein ffermydd, ein tir, a'r cynlluniau rydym ni'n cymryd rhan ynddynt, yn enghreifftiau da o arfer gorau. Gallwn gael effaith gadarnhaol enfawr wrth i ni ymdrechu tuag at sero net. Mae angen i ni ei wneud ar gyfer y blaned, ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, ein cymunedau gwledig a'n diwydiant ffermio."

Teulu Morgan, Fferm Gellifeddgaer

"Mae cynnal a goruchwylio ein coetiroedd yn hanfodol i gynnal amgylchedd gwledig Cymru. Mae bron i £300 miliwn o ran olaf Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 wedi ymwneud â gweithgareddau amaeth-amgylchedd-hinsawdd ar y tir, gydag ychydig dros saith mil o ddaliadau'n cael buddsoddiad drwy'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy a'r Grant Busnes Fermydd. Yn y cyfnod hwnnw'n unig rydym wedi gweld dros wyth mil hectar o goetiroedd newydd yn cael eu creu a thros bedair mil hectar yn cael eu cefnogi drwy Adfer Coetir Glastir.

"Gyda'r holl waith amgylcheddol sydd wedi'i gynnwys yn Glastir a chynlluniau tir eraill dros y blynyddoedd, mae'r dyfodol yn edrych yn gadarnhaol. Mae'r allbynnau clir a welir drwy'r cynlluniau hyn yn sylweddol ac, felly, mae angen inni barhau i gydweithio â ffermwyr Cymru i gynnal y tiroedd fferm a'r coetiroedd am genedlaethau i ddod.

"Rydyn ni'n gobeithio y bydd gweithio gyda ffermwyr ar brosiectau fel Glastir yn y dyfodol yn darparu gofod y mae mawr ei angen ar gyfer byd natur, yn cynyddu bioamrywiaeth, yn helpu i ddal, gwella ansawdd ein dŵr a storio carbon a darparu pren mewn ffordd gynaliadwy ar gyfer adeiladu a gwasanaethau eraill."

Kevin Taylor, Rheolwr Polisi, Is-adran Datblygu Cynaliadwy Amaethyddiaeth Llywodraeth Cymru